

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4042
(CYLCHFAN CAERLLION, CASNEWYDD I
GYLCHFAN CWMBRÂN, TORFAEN)
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2024**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A4042, neu gerllaw iddi, rhwng Cylchfan Caerllion, Casnewydd a Chylchfan Cwmbrân, Torfaen.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r A4042 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Amlinellir y trefniadau ar gyfer llwybrau eraill ynddi hefyd.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 7 Mawrth 2024. Disgwylir y bydd y gwaharddiad yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (20:00 - 06:00 awr), a phan dangosir gan arwyddion traffig, am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Pan fo'n bosibl, bydd hysbysiad ynghylch cau'r ffordd yn cael ei arddangos tua wythnos cyn i unrhyw waith ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

1. Y darn o gerbyttffordd tua'r gorllewin yr A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Caerllion hyd at drwyniad ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 25A yr M4.
2. Y darn o gerbyttffordd tua'r dwyrain yr A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Grove Park hyd at ei chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Caerllion, Casnewydd.
3. Y darn o'r A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Grove Park, Casnewydd hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Croes-y-mwyalch, Torfaen.

**THE A4042 TRUNK ROAD (CAERLEON
ROUNDAABOUT, NEWPORT TO CWMBRAN
ROUNDAABOUT, TORFAEN) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2024**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A4042 trunk road between Caerleon Roundabout, Newport and Cwmbran Roundabout, Torfaen.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the lengths of the A4042 specified in the Schedule to this Notice. The alternative route arrangements are also outlined therein.

The Order comes into force on 7 March 2024. The temporary prohibition is expected to operate intermittently overnight (20:00 – 06:00 hours), and when indicated by traffic signs, for a maximum period of 18 months. Whenever possible, notice of closures will be displayed approximately one week before the start of any work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

SCHEDULE

1. The length of the A4042 westbound carriageway that extends from its junction with the western side of Caerleon Roundabout to the nosing of the M4 Junction 25A westbound exit slip road.
2. The length of the A4042 eastbound carriageway that extends from its junction with the eastern side of Grove Park Roundabout to its junction with the western side of Caerleon Roundabout, Newport.
3. The length of the A4042 that extends from its junction with the northern side of Grove Park Roundabout, Newport to its junction with the southern side of Croes-y-Mwyalch Roundabout, Torfaen.

4. Y darn o'r A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Croes-y-mwyalch hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Crown, Torfaen. (Mae mynediad lleol i gael ei gynnal tua'r de o Gylchfan Cwmbrân hyd at bwynt y cau).

5. Y darn o'r A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Crown hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Turnpike, Torfaen. (Mae mynediad lleol i gael ei gynnal tua'r gogledd o Gylchfan Croes-y-mwyalch a thua'r de o Gylchfan Cwmbrân hyd at bwyntiau'r cau).

6. Y darn o'r A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Turnpike hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Edlogan Way, Torfaen. (Mae mynediad lleol i gael ei gynnal tua'r gogledd o Gylchfan Croes-y-mwyalch a thua'r de o Gylchfan Cwmbrân hyd at bwyntiau'r cau).

7. Y darn o'r A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Edlogan Way hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Cwmbrân, Torfaen. (Mae mynediad lleol i gael ei gynnal tua'r gogledd o Gylchfan Croes-y-mwyalch hyd at bwynt y cau).

Llwybrau eraill

Codir arwyddion priodol i nodi'r gwyriad ar gyfer y llwybrau eraill a byddant yn amrywio gan ddibynnu ar ben y daith a phryd y bydd darn penodol o'r A4042 a ddisgrifir uchod ar gau dros dro i draffig.

Pan fydd y darnau o'r A4042 a ddisgrifir ym mharagraffau 1 a 2 o'r Atodlen ar gau, y llwybr amgen ar gyfer cerbydau y mae eu uchder yn llai na 4.8 o fetrau yw mynd ar yr A4042, y B4591 a'r B4596 Heol Caerllion.

Y llwybr amgen ar gyfer cerbydau y mae eu uchder dros 4.8 o fetrau yw mynd ar yr A4042, y B4591, y B4596 Heol Caerllion, y B4237 a'r M4 tua'r dwyrain neu'r gorllewin yn ôl yr angen.

Bydd llwybrau eraill ar gael ar gyfer yr holl cyfnodau cau eraill drwy fynd ar yr A4042 Heidenheim Drive, yr A4051 Malpas Road a'r A4051 Cwmbrân Drive, fel y bo'n briodol.

4. The length of the A4042 that extends from its junction with the northern side of Croes-y-Mwyalch Roundabout to its junction with the southern side of Crown Roundabout, Torfaen. (Local access to be maintained southbound from Cwmbran Roundabout to point of closure).

5. The length of the A4042 that extends from its junction with the northern side of Crown Roundabout to its junction with the southern side of Turnpike Roundabout, Torfaen. (Local access to be maintained northbound from Croes-y-Mwyalch Roundabout and southbound from Cwmbran Roundabout to points of closure).

6. The length of the A4042 that extends from its junction with the northern side of Turnpike Roundabout to its junction with the southern side of Edlogan Way Roundabout, Torfaen. (Local access to be maintained northbound from Croes-y-Mwyalch Roundabout and southbound from Cwmbran Roundabout to points of closure).

7. The length of the A4042 that extends from its junction with the northern side of Edlogan Way Roundabout to its junction with the southern side of Cwmbran Roundabout, Torfaen. (Local access to be maintained northbound from Croes-y-Mwyalch Roundabout to point of closure).

Alternative routes

The alternative routes will be signed with appropriate diversion signs and will vary depending on destination and when a particular length of the A4042 described above is temporarily closed to traffic.

During closures of the lengths of the A4042 described in paragraphs 1 and 2 of the Schedule, the alternative route for vehicles less than 4.8 metres in height is via the A4042, B4591 and B4596 Caerleon Road.

The alternative route for vehicles over 4.8 metres is via the A4042, B4591, B4596 Caerleon Road, B4237 and the east or westbound M4 as necessary.

Alternative routes for all other closures will be available via the A4042 Heidenheim Drive, A4051 Malpas Road and A4051 Cwmbrân Drive, as appropriate.